



**CWMPAS:  
BWRDD DIOGELU OEDOLION  
CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU**

**Dogfen Ganllaw Ranbarthol ynghylch  
Trothwy Diogelu Oedolion**



**CYDWEITHREDIAD CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU**

**CYNNWYS:****Tudalen**

Rhagarweiniad	3
Deddfwriaeth a Dyletswydd Statudol Llywodraeth Leol/Partneriaid	4
Dymuniadau, Teimladau a Chydsyniad	5
Galluedd Meddyliol a Budd Pennaf	6
Eiriolaeth mewn Diogelu	6
Ffurio Barn / Gwneud Penderfyniadau Proffesiynol	7
Gwneud Atgyfeiriad Diogelu	8
Diffiniadau	9
Siart Llif Proses yr Ymholiad Diogelu	10
Y Penderfyniad	11
Pryderon ynghylch Ymarfer Gwael/Safonau Gwasanaeth	12
Pryderon Proffesiynol	12
Camdriniaeth Sefydliadol / Gyfundrefnol	12
Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)	14
Adolygiadau Ymarfer Oedolion	15
Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol	15
Y Rhyngwyneb â Diogelu Plant	16
Canllaw Trothwy Diogelu	17-26
Canllaw Trothwy Pryderon ynghylch Ymarfer Gwael/Safonau Gwasanaeth	27-31
Canllaw Trothwy Cyflym ar gyfer Gwasanaethau dan Gontract	32

**Atodiadau:****Tudalen**

Atodiad 1 – <b>Ffurflen Atgyfeirio Diogelu Oedolion (MARF)</b>	33-38
Atodiad 2 – <b>Ffurflen Atgyfeirio Pryderon ynghylch Ymarfer Gwael/Safonau Gwasanaeth</b>	39-41

**Geirfa**

**CWMPAS** – Gweithio ar y cyd a Chynnal Partneriaeth mewn Diogelu Oedolion (Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol)

**CYSUR** – Diogelu Plant ac Ieuentid, Uno'r Rhanbarth (Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol)

**DNACPR** – Peidiwch â Cheisio Adfywio'r Galon a'r Ysgyfaint

**VAWDASV** – Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

**MARAC** – Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol

**MAPF** – Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol

**APR** – Adolygiad Ymarfer Oedolion

Fersiwn	Dyddiad Diwygio	Y Broses Ymgynghori	Perchennog	Dyddiad Cymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol	Dyddiad Adolygu
V1	23/3/18	Gweithgor Diogelu Oedolion		D/B	D/B
V1.10	1/5/2018	Ymgynghoriad Rhanbarthol drwy grwpiau ffocws wedi'u targedu a rhith-ymgynghori	Is-grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau		

## **Rhagarweiniad**

Cydnabyddir yn gyffredinol fod ymarferwyr a darparwyr gwasanaeth yn gweithio'n ddiflino i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, weithiau mewn sefyllfaoedd heriol. Yn anffodus, yn ystod y gwaith hwn, fe fydd yna adegau fydd yn peri pryder ynghylch diogelwch yr oedolion y maent yn gweithio gyda hwy. Mae'n hollbwysig i bob asiantaeth wybod beth i'w wneud pan fydd yn canfod neu'n amau bod oedolyn yn wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod a'i bod yn mynd ati'n rhagweithiol i gyfrannu at atal niwed a chamdriniaeth rhag digwydd neu waethygu. Nid yw penderfynu pryd y dylid atyfeirio testun pryder diogelu at yr Awdurdod Lleol a deall sut y gellid neu y dylid rheoli pryderon yn glir bob amser.

Er mwyn rhoi arweiniad a sicrhau cysondeb rhanbarthol, datblygwyd y 'ddogfen ganllaw trothwy diogelu oedolion' ganlydol gan CWMPAS, sef Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru, mewn cydweithrediad ag asiantaethau sy'n bartneriaid a thrwy ymgynghori â staff rheng flaen.

Diben y ddogfen ganllaw trothwy yw sicrhau bod ein hymateb ni i gyd o fewn y rhanbarth, i gadw pobl yn ddiogel, yn briodol ac yn gymesur i'r esgeulustod / camdriniaeth a ganfuwyd neu'r risg o hynny. Mae hyn yn golygu nad gweithdrefnau diogelu ffurfiol fydd y ffordd orau bob amser na'r unig ffordd o fynd i'r afael â materion sy'n codi.

Rhydd y ddogfen ganllaw enghreifftiau o'r math o bryderon a all beri, neu na fydd yn peri, bod angen atgyfeiriad diogelu at yr Awdurdod Lleol gan nad yw'r pryderon efallai o natur gamdriniol neu esgeulus, y rheiny fydd angen eu hatgyfeirio ond sy'n debygol o gael eu rheoli mewn ffordd fwy priodol a'r rheiny fydd yn ddi-os yn ysgogi gweithdrefnau diogelu ffurfiol. Mae rhai pryderon yn ymwneud ag ymarfer gwael neu ansawdd gwael y gwasanaethau a ddarperir, y bydd yn rhaid eu rheoli'n briodol. Mae'r canllawiau ychwanegol ynghylch ymarfer/safonau gwasanaeth gwael (Tudalen 32) yn ymwneud â darparwyr a gomisiynir gan Gynghorau Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Powys a Cheredigion

### **Beth sy'n bryder ynglŷn ag ansawdd a safonau darparu gwasanaeth (ymarfer gwael) a beth sy'n gam-drin neu'n esgeulustod?**

Ceir cryn ddadlau ynghylch y gwahaniaeth rhwng ansawdd gofal neu gymorth (ymarfer gwael) ac esgeulustod. Os yw person yn gwbl ddiybnnol ar gymorth pobl eraill i ddiwallu ei anghenion sylfaenol, gall 'ymarfer gwael' parhaus arwain at niwed difrifol neu farwolaeth.

Mae ymarfer gwael yn bryder sy'n ymwneud ag ansawdd a safonau darparu gwasanaeth. Elfennau defnyddiol wrth benderfynu a oes ymarfer gwael wedi digwydd, lle nad oes angen camau gweithredu o dan bolisi a gweithdrefn Diogelu er mwyn diogelu'r oedolyn, yw canfod a yw testun y pryder:

- yn ddigwyddiad 'un tro' i un unigolyn
- heb arwain at unrhyw niwed
- yn dangos bod angen gweithredu diffiniedig

Rhaid i ddigwyddiadau sy'n dangos bod ymarfer gwael yn effeithio ar fwy nag un oedolyn, neu fod ymarfer gwael yn ailddigwydd ac nad digwyddiad 'un tro' ydyw, arwain at gychwyn gweithdrefnau Diogelu Oedolion gan y gall y digwyddiadau hyn fod yn ddangosyddion da o gam-drin sefydliadol mwy eang.

Weithiau mae digwyddiad 'un tro' yn arwydd bod safonau darparwyr iechyd neu ofal wedi gostwng.

Mae'r dull cymesur hwn o reoli risg yn sicrhau y cymerir y camau iawn gan y bobl iawn ar yr adeg iawn. Mae hefyd yn sicrhau y rhoddir sylw priodol i ddymuniadau a theimladau'r unigolion dan sylw, a ddylai gael eu galluogi i wneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain.

## **Egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**

Mae [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) yn darparu sylfaen ddeddfwriaethol gadarn, sy'n seiliedig ar egwyddorion sy'n sicrhau bod yr oedolyn yn cadw'r rheolaeth ar ei benderfyniadau ei hun, neu bod y penderfyniadau y rhai lleiaf cyfyngol ac er budd pennaf y person hwnnw, pan na fydd yn gallu gwneud penderfyniadau drosto'i hun.

Egwyddorion sylfaenol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw:

- **Llais a rheolaeth** – gosod yr unigolyn a'i anghenion yng nghanol ei ofal a rhoi llais iddo a rheolaeth dros sicrhau'r canlyniadau fydd yn ei gynorthwyo i gael lles.
- *“Maen nhw'n gofyn i mi beth sydd amaf ei eisiau fel canlyniadau i'r broses ddiogelu ac mae'r rhain yn dylanwadu'n uniongyrchol ar yr hyn sy'n digwydd.”*
- **Atal ac ymyrryd yn gynnar** – cynyddu gwasanaethau ataliol o fewn y gymuned i gadw angen critigol rhag gwaethygu.
- *“Rydw i'n derbyn gwybodaeth glir a syml ynghylch beth ydy camdriniaeth, sut i adnabod arwyddion a'r hyn y gallaf ei wneud i edrych am help.”*
- **Llesiant** – cynorthwyo pobl i sicrhau eu lles eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.
- *“Rydw i'n teimlo'n hapus ynglŷn â'r cymorth yr ydw i'n ei dderbyn a'm bod wedi cael fy ngalluogi i gymryd rhan yn y broses.”*
- **Cydgynhyrchu** – annog unigolion i gymryd mwy o ran mewn cynllunio a darparu gwasanaethau.  
*“Rydw i'n cael fy nghynorthwyo i gymryd rhan yn y broses o benderfynu i'r graddau y mae amaf eisiau ac yr wyf yn medru.”*

## **Dyletswydd Awdurdod Lleol**

Pan wneir atgyfeiriad diogelu at yr Awdurdod Lleol, mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod i wneud ymholiadau (neu beri iddynt gael eu gwneud) ac amddiffyn yn ddigonol ac edrych i mewn i achosion lle mae camdriniaeth neu esgeulustod wedi digwydd neu lle mae perygl o hynny. Pwrpas ymholiad diogelu yw i'r Awdurdod Lleol gael eglurder ar faterion a phenderfynu pa gamau gweithredu (os o gwbl) sydd angen eu cymryd er mwyn amddiffyn yr oedolyn dan sylw rhag camdriniaeth a/neu esgeulustod. Os oes angen unrhyw gam gweithredu, yna cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw cymryd yr awenau wrth gyd-drefnu pa gam sy'n briodol a phwy sydd i'w gymryd.

Yn aml, atgyfeirir materion at yr Heddlu os ydynt yn ymwneud â Masnachu mewn Pobl, Cam-drin Domestig gan gynnwys Priodasau Gorfodol, Troseddau Seiliedig ar Anrhydedd, Anffurfio Organau Rhywiol Merched, Camfanteisio'n Rhywiol (gan gynnwys anfon negeseuon rhywiol a delweddau anwedus) a throseddau casineb/cyfeillio, a bydd yr Heddlu yn arwain yr ymchwiliadau ac yn rheoli'r ymateb amlasiantaethol. Fodd bynnag, os canfyddir anghenion am ofal a chymorth, dylid cysylltu â'r Awdurdod Lleol fel y gellir gwneud ymholiadau cychwynnol ynglŷn â lles yr unigolyn dan sylw.

## **Dyletswydd Asiantaeth sy'n Bartner i Adrodd**

Er y disgwylir i bob asiantaeth adrodd am bryderon wrth yr Awdurdod Lleol os oes ganddynt **achos rhesymol dros amau** bod **oedolyn mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod**, fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae'r ddogfen hon yn gweithredu fel nodyn i atgoffa Asiantaethau sy'n Bartneriaid bod ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i wneud hynny.

## **Cyfrifoldeb ac Atebolrwydd**

Mae diogelu yn ei gyd-destun ehangach yn gyfrifoldeb ar bawb ond er y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gynorthwyo oedolion, byddwn yn disgwyl i weithwyr proffesiynol gymryd "**meddiant**" o'u pryderon a chymryd cyfrifoldeb am y gwaith y mae angen ei wneud i gadw unigolion yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau cyn, yn ystod ac ar ôl i atgyfeiriad diogelu gael ei wneud.

## **Canlyniadau**

Rhaid i ymyriadau i atal ac amddiffyn oedolion rhag camdriniaeth a/neu esgeulustod ganolbwyntio ar y canlyniadau y mae ar bobl eu heisiau a'u galluogi i gadw rheolaeth ar eu bywydau. Mae cynnal urddas, parch, dewis ac annibyniaeth gymaint â phosibl yn egwyddor sylfaenol yn unrhyw ymyriad gan gynnwys diogelu.

## **Dymuniadau a Theimladau**

Mae gan oedolion yr hawl i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u bywydau hyd yn oed os ydym ni'n meddwl bod y penderfyniadau hynny yn annoeth. Yn ganolog i'r dull hwn, rhaid cael yr oedolyn i gymryd rhan mewn sgwrs ynglŷn â sut orau i ymateb i'w sefyllfa, gan sicrhau ei fod yn cael llais, dewis a rheolaeth yn ogystal â gwell ansawdd bywyd a lles a diogelwch. Dylid cael sgwrs onest gyda'r oedolyn yn esbonio'r pryder. Byddai peidio â chaniatáu i'r person wneud penderfyniadau mewn amgylchiadau o'r fath fel cyflawni camdriniaeth bellach.

## **Cydsyniad**

Lle bynnag y bo'n bosibl, rhaid i chi gael cydsyniad yr unigolyn a gofyn am ei farn oni bai bod gwneud hynny yn debygol o gynyddu'r risg iddo ef neu hi neu roi eraill mewn perygl. Dylid rhoi'r wybodaeth i'r unigolyn yn y fath fodd fel y gellir cael cydsyniad gwybodus. Os na roddir cydsyniad i rannu gwybodaeth, gan gynnwys codi pryder ynghylch diogelu, yna dylid cymryd camau gwahanol i leihau'r perygl i'r oedolyn. Nid yw'r diffyg cydsyniad yn dileu'r angen i gymryd camau ataliol os a lle bo'n briodol.

## **Gwrthwneud Cydsyniad**

Pan nad oes ar oedolyn, sydd â'r gallu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'i ddiogelwch ei hun, eisiau i unrhyw gamau gael eu cymryd, nid yw hyn bob amser yn gwrthwneud cyfrifoldeb gweithiwr proffesiynol i fynegi pryder diogelu wrth yr Heddlu neu'r Awdurdod Lleol. Mewn amgylchiadau lle mae eraill mewn perygl, gan gynnwys plant, neu lle bydd trosedd efallai wedi ei chyflawni, neu lle mae'r oedolyn yn cael ei orfodi, ei reoli neu ei ddychryn, dylid codi pryder diogelu.

## **Darparu Gwybodaeth**

Dylai'r oedolyn dderbyn gwybodaeth glir a theimlo'n wybodus ynghylch y cymorth sydd ar gael, y rheswm dros godi'r pryder ac os cymerir camau yn erbyn ei ddymuniad (h.y. heb gydsyniad), y rheswm am hyn. Nid yw hyn yn atal rhannu gwybodaeth â phartneriaid perthnasol. Fodd bynnag, mae'n arfer da i hysbysu'r oedolyn y bydd hyn yn digwydd oni bai y byddai gwneud hynny yn cynyddu'r risg o niwed. Rhaid rhoi ystyriaeth i anghenion cyfathrebu penodol y person wrth ddarparu gwybodaeth a thrwy gydol unrhyw ymyriad.

## **Galluedd Meddyliol / Asesu Galluedd**

Pan fo ymholiad diogelu yn canfod problemau galluedd, rhaid i berson priodol a chymwys gynnal asesiad o alluedd. Yng nghyd-destun diogelu, gallai'r galluedd dan sylw ymwneud, er enghraifft, â gallu'r oedolyn i wneud penderfyniadau penodol ynglŷn â'i sefyllfa neu i gydweithredu â'r Awdurdod Lleol wrth gynnal yr ymholiad diogelu. Rhaid tybio bod gan berson y gallu, oni ddangosir bod diffyg galluedd. Rhaid rhoi pob cefnogaeth ymarferol a phriodol i'r person yn gyntaf i'w gynorthwyo i wneud y penderfyniad drosto'i hun. Ni ddylid penodi eiriolwr ond os yw pob cymorth ymarferol a phriodol i helpu'r unigolyn i wneud y penderfyniad wedi methu. Nodir bod galluedd bob amser yn rhywbeth amhendant a phenodol i'r penderfyniad.

## **Budd Pennaf**

Rhaid i bopeth a wneir ar gyfer neu ar ran person sydd â diffyg galluedd fod er budd pennaf y person hwnnw. Gall person roi ei ddymuniadau a'i deimladau ef neu hi mewn datganiad ysgrifenedig os yw'n dymuno, y bydd rhaid i'r person sy'n gwneud y penderfyniad ei gymryd i ystyriaeth. Hefyd, ymgynghorir â gofalwyr ac aelodau'r teulu. Dylid talu'r sylw dyledus bob amser i 5 Egwyddor Allweddol y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

## **Deddf Galluedd Meddyliol 2005 – 5 Egwyddor Allweddol**

1. Mae gan bob oedolyn yr hawl i wneud ei benderfyniadau ef neu hi ei hun a rhaid rhagdybio bod ganddo ef neu hi'r gallu i wneud hynny oni phrofir fel arall. Mae hyn yn golygu na ellwch dybio nad yw rhywun yn medru gwneud penderfyniad drosto'i hun, yn unig am fod ganddo/i gyflwr meddygol neu anabled penodol.
2. Rhaid rhoi pob help ymarferol i berson cyn i neb ei drin fel un nad yw'n medru gwneud ei benderfyniadau ei hun. Mae hyn yn golygu y dylech wneud pob ymdrech i annog a chefnogi pobl i wneud y penderfyniad drostynt eu hunain. Os canfyddir bod yna ddifffyg galluedd, mae'n dal yn bwysig i chi gynnwys y person gymaint â phosibl wrth wneud penderfyniadau.
3. Mae gan bobl yr hawl i wneud penderfyniadau, y byddai eraill o bosibl yn eu hystyried yn annoeth neu'n anghyffredin. Ni ellwch drin rhywun fel person heb alluedd am y rheswm hwn. Mae gan bawb eu gwerthoedd, eu daliadau a'u hoff bethau, nad ydynt efallai yr un fath â rhai pobl eraill.
4. Rhaid i unrhyw beth a wneir ar gyfer neu ar ran person sydd â diffyg galluedd meddyliol gael ei wneud er ei fudd pennaf ef neu hi.
5. Rhaid i rywun sy'n gwneud penderfyniad neu'n gweithredu ar ran person sydd heb alluedd ystyried a yw'n bosibl penderfynu neu weithredu mewn ffordd a fyddai'n ymyrryd llai â hawliau a rhyddid gweithredu'r person, neu a oes angen penderfynu neu weithredu o gwbl. Dylid pwysu a mesur unrhyw ymyriad yng ngoleuni amgylchiadau penodol yr achos.

## **Eiriolaeth wrth Ddiogelu**

Dylai pobl fod yn bartneriaid gweithredol mewn unrhyw ymholiad diogelu. Ni waeth pa mor gymhleth fo anghenion person, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys pobl, eu helpu i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau, eu cynorthwyo i bwysu a mesur y dewisiadau, a gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Rhaid i weithwyr proffesiynol ac unigolion sicrhau bod barn ynghylch yr angen am eiriolaeth yn rhan annatod o'r broses ddiogelu.

Rhaid i'r Awdurdod Lleol, i ddechrau, ystyried y ffordd orau o gynnwys y person yn yr ymholiad diogelu, sy'n briodol ac yn gymesur ag anghenion ac amgylchiadau'r person. Os bydd yn ymddangos i'r Awdurdod Lleol fod gan y person efallai anghenion gofal a chymorth ac os bydd o'r farn fod y person yn cael anhawster sylweddol i ymgysylltu â'r broses ddiogelu, yna bydd yn rhaid ystyried a oes yna unrhyw un priodol a allai gynorthwyo'r person i gymryd rhan lawn.

Er enghraifft, gallai hwn fod yn Ofalwr (nad yw'n cael ei gyflogi'n broffesiynol nac yn derbyn tâl), aelod o'r teulu neu ffrind. Os na fydd yna unrhyw un priodol, yna rhaid i'r Awdurdod Lleol drefnu i eiriolwr annibynnol gefnogi a chynrychioli'r person yn yr ymholiad diogelu.

Mae diogelu effeithiol yn ceisio hyrwyddo hawliau Oedolyn yn ogystal â diogelu ei ddiogelwch corfforol a chymryd camau i atal camdriniaeth neu esgeulustod rhag digwydd neu ailddigwydd. Mae'n galluogi'r oedolyn i ddeall y perygl o gamdriniaeth a'r camau y gall ef neu hi eu cymryd, neu ofyn i eraill eu cymryd, i leihau'r risg honno.

Os oes angen i ymholiad diogelu gychwyn ar frys, yna mae modd iddo gychwyn cyn penodi eiriolwr ond rhaid i un gael ei benodi cyn gynted â phosibl. Dylai pob asiantaeth wybod sut mae modd cael gafael ar wasanaethau eiriolaeth a beth yw rôl yr eiriolwr.

### **Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS)**

Mae amddifadu rhywun o'i ryddid yn golygu cymryd ei ryddid oddi arno. Ystyrir bod rhywun wedi cael ei amddifadu o'i ryddid os yw o dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus, a heb fod yn rhydd i adael. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn caniatáu defnyddio dulliau cyfyngu ac atal ond dim ond os ydynt er budd pennaf y person. Mae angen mesurau diogelu ychwanegol os bydd y dull cyfyngu ac atal a ddefnyddir yn amddifadu rhywun o'i ryddid. Gelwir y rhain yn Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS).

Ni ellir defnyddio Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ond os yw person yn cael ei amddifadu o'i ryddid mewn lleoliad gofal neu ysbyty. Mewn lleoliadau eraill, gall y Llys Gwarchod awdurdodi amddifadu o ryddid. Er mwyn amddifadu rhywun o'i ryddid rhaid dilyn proses glir, a rhaid cynnal cyfres o asesiadau er mwyn awdurdodi colli rhyddid. Os yw'n amlwg bod person yn cael ei amddifadu o'i ryddid heb yr awdurdodiad neu'r trefniadau diogelu priodol yna dylid gwneud atgyfeiriad diogelu at yr Awdurdod Lleol.

### **Barn Broffesiynol**

Arweiniad yw'r Ddogfen Ganllaw ynghylch Trothwy Diogelu Oedolion, sy'n rhoi darlun cyfyngedig o'r gamdriniaeth neu'r esgeulustod a all ddigwydd a'r ehanger posibl yn y graddau o ddirifoldeb. Nid yw'n ymdrin â phob senario bosibl a dylid ei defnyddio ynghyd â barn broffesiynol i wneud penderfyniadau y gellir eu hamddiffyn. Efallai y ceir amgylchiadau lle bydd y sefyllfa yn ymddangos yn risg isel ond eich bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau tebyg sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Bydd hyn yn dylanwadu ar eich penderfyniad i atgyfeirio at yr Awdurdod Lleol a dylai manylion o'r fath fod yn eglur ar y Ffurflen Atgyfeirio Diogelu Oedolion. Bydd angen i'r sawl sy'n atgyfeirio ystyried barn yr oedolyn sydd mewn perygl, lle bo'n briodol, a gofyn am gydsyniad i rannu gwybodaeth ar sail amlasiantaethol.

Os byddwch mewn unrhyw amheuaeth, argymhellir gofyn am gyngor gan yr Awdurdod Lleol. Dylai staff Bwrdd Iechyd ofyn am gyngor gan eu tîm diogelu arbenigol hwy eu hunain. Ar gyfer ymholiadau y Tu Allan i Oriau – gweler ['rhoi gwybod am bryderon ynghylch oedolyn'](#) ar ein gwefan am fanylion

### **Gwneud Penderfyniadau / Cofnodi Camau Gweithredu**

Os gwneir penderfyniad i BEIDIO ag atgyfeirio at yr Awdurdod Lleol, rhaid i'r asiantaeth unigol wneud cofnod o'r pryder ac unrhyw gamau a gymerwyd. Dylid cofnodi pryderon yn y fath fodd fel ei bod yn hawdd adnabod digwyddiadau niwed lefel isel sy'n ailddigwydd, ac wedyn eu hatgyfeirio. Nid yw peidio ag atgyfeirio at yr Awdurdod Lleol yn dileu cyfrifoldeb Asiantaeth i gymryd camau perthnasol lle y gall ac y dylai wneud nac i adrodd yn fewnol a hefyd wrth reoleiddwyr a chomisiynwyr.

## Cyn Atgyfeirio

Cyn gwneud atgyfeiriad, dylai'r sawl sy'n atgyfeirio fod wedi ystyried y tair elfen a ddisgrifir yn y diffiniad o oedolyn mewn perygl a chyfleu'n glir **pam mae ganddo achos rhesymol i amau bod yr oedolyn mewn perygl o gamdriniaeth a/neu esgeulustod**. Rhaid iddo hefyd ddarparu manylion y camau y mae wedi eu cymryd eisoes i reoli'r sefyllfa / unrhyw risg gysylltiedig ac a yw'r oedolyn wedi cydsynio i'r yr atgyfeiriad neu beidio. Os cafodd cydsyniad ei wrthwneud, rhaid i'r rheswm am hyn fod yn eglur ar y ffurflen atgyfeirio.

Wrth ymateb i'r pryderon diogelu efallai y bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cyngor ac arweiniad i weithwyr proffesiynol i reoli'r digwyddiad diogelu, i'r person sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef camdriniaeth, i Ofalwyr neu bartïon perthnasol eraill, yn hytrach na chychwyn achos amddiffyn oedolyn. Mae'n bwysig deall felly na fydd ymholiad diogelu o reidrwydd yn arwain at yr hyn a ystyrir fel arfer yn 'ymateb diogelu', megis ymchwiliad gan yr Heddlu, Corff Rheoleiddio neu Awdurdod Lleol, ond gallai arwain at gamau eraill i amddiffyn yr oedolyn dan sylw. Os rhoddwyd mesurau rheoli ar waith, sy'n effeithiol i gadw'r unigolyn yn ddiogel, mae lefel y risg yn lleihau. Hwyrach y bydd camau o'r fath felly'n ddigon i'w gwneud yn bosibl parhau i reoli'r sefyllfa ar lefel asiantaeth.

Os bydd yr amgylchiadau yn gofyn am wybodaeth, cyngor a chymorth mwy cyffredinol, cymorth gwaith cymdeithasol neu asesiad o anghenion Gofal a Chymorth, rhaid gofyn am hyn drwy'r llwybrau asesu a rheoli gofal lleol isod. Peidiwch ag atgyfeirio ceisiadau o'r fath at yr adran ddiogelu, oni bai bod gennych achos rhesymol i amau bod y person yn oedolyn sy'n wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod fel y disgrifiwyd uchod.

## Gwneud Atgyfeiriad Diogelu

Rhaid cyflwyno'r holl atgyfeiriadau diogelu ar y **Ffurflen Atgyfeirio Diogelu Oedolion (MARF) – Atodiad 1** ranbarthol, ac anfon y ffurflen ymlaen i ardal yr Awdurdod Lleol lle y digwyddodd y gamdriniaeth neu'r risg o hynny. Mae'r manylion cyswllt ar gael ar wefan [CWMPAS](#).

## Diffiniad o Oedolyn sy'n Wynebu Risg

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio 'oedolyn mewn perygl o gamdriniaeth a/neu esgeulustod' fel oedolyn sydd:

- Yn dioddef neu'n wynebu'r risg o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod;
- Ag anghenion Gofal a Chymorth (p'un a yw'r awdurdod lleol yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny neu beidio). *DS: Nid yw Gofal a Chymorth wedi'u diffinio'n glir yn y Ddeddf; a/c*
- O ganlyniad i'r anghenion hynny, yn methu â'i amddiffyn ef neu hi ei hun rhag y gamdriniaeth neu'r esgeulustod neu'r perygl o hynny.

Mae cynnwys 'mewn perygl' o fewn diffiniad newydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn bosibl **ymyrryd yn gynnar** i amddiffyn oedolyn sy'n wynebu risg ac atal y risg rhag gwaethygu. Nid yw'r penderfyniad i weithredu yn ei gwneud yn ofynnol bod camdriniaeth nac esgeulustod gwirioneddol wedi digwydd. Y nod yw amddiffyn y bobl sydd angen eu hamddiffyn a'u cynorthwyo i atal camdriniaeth neu esgeulustod rhag digwydd.

Fe wnaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddileu 'niwed sylweddol' fel trothwy ar gyfer cymryd camau gweithredu diogelu. Mae hyn yn pwysleisio'r angen i symud i ffwrdd oddi wrth weithdrefnau sy'n cael eu gyrru gan brosesau ffurfiol, i ddull sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau lle mae gan yr unigolyn a'r gweithwyr proffesiynol i gyd ran i'w chwarae. Fodd bynnag, er mwyn rheoli'n effeithiol nifer y pryderon diogelu a dderbynnir gan Awdurdodau Lleol, mae angen gwahaniaethu rhwng pryderon lefel is a'r rheiny sy'n fwy difrifol eu natur. Felly, mae'r ddogfen ranbarthol hon yn cynnwys 'risg sylweddol o niwed' fel trothwy mesuredig ar gyfer cychwyn gweithdrefnau diogelu ffurfiol. Fodd bynnag, mae yna fecanweithiau eraill i gael mynediad at gymorth y tu allan i'r broses ddiogelu ffurfiol.



## **Diffiniad o Ofal a Chymorth**

Diffinnir Gofal a Chymorth yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel:

- Gofal
- Chymorth
- Gofal a Chymorth hefyd

Efallai y bydd yr anghenion Gofal a Chymorth yn amlwg, ond yn aml efallai na fyddant. Fodd bynnag, efallai y daw unrhyw anghenion Gofal a Chymorth yn amlwg yn ystod sgwrs gyda'r oedolyn.

## **Diffiniad o Gamdriniaeth neu Esgeulustod**

Mae camdriniaeth yn golygu camdriniaeth gorfforol, rywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol. Mae esgeulustod yn golygu methiant i ateb anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol y person, sy'n debygol o arwain at amharu ar lesiant y person.

### **Camdriniaeth Gorfforol**

Mae'n cynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i: taro, slapio, gorddefnydd neu gamddefnydd o feddyginiaeth, ataliaeth ormodol neu sancsiynau amhriodol.

### **Esgeulustod**

Mae'n cynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i: methu â chael gofal neu wasanaethau meddygol, esgeulustod yn wyneb cymryd risg, methu â rhoi meddyginiaethau ar bresgripsiwn, methiant i gyorthwyo gyda hylendid personol neu ddarparu bwyd, cysgod, dillad; esgeulustod emosiynol.

### **Camdriniaeth Ariannol**

Mae'n cynnwys bod arian neu eiddo arall yn cael ei ddwyn, y person yn cael ei dwyllo, yn cael ei roi o dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall neu bod ei arian neu eiddo arall yn cael eu camddefnyddio. Gall enghreifftiau o'r fath gynnwys: newid annisgwyl yn ei ewyllys; gwerthu neu drosglwyddo'r cartref yn sydyn; gweithgarwch anarferol mewn cyfrif banc; cynnwys enwau ychwanegol ar gyfrif banc yn sydyn; llofnod ddim yn debyg i lofnod arferol y person; amharodrwydd neu bryder y person pan fydd yn trafod ei faterion ariannol; rhoi rhodd sylweddol i ofalwr neu drydydd parti; diddordeb sydyn gan berthynas neu drydydd parti arall yn lles y person; biliau sy'n dal heb eu talu; cwynion bod eiddo personol ar goll; dirywiad yn ei ymddangosiad personol a all ddangos bod diet a gofynion personol yn cael eu hanwybyddu; ynysu pwrpasol oddi wrth ffrindiau a theulu yn rhoi rheolaeth llwyr i berson arall dros ei benderfyniadau.

### **Camdriniaeth Seicolegol**

Mae'n cynnwys ond heb ei gyfyngu i: bygythiad o niwed neu gael ei adael yn llwyr, rheolaeth orfodol, codi cywilydd, camdriniaeth lafar neu hiliol, ynysu neu dynnu'n ôl o wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol; mae rheolaeth orfodol yn golygu gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosod, bygythiadau, codi cywilydd, codi ofn neu gamdriniaeth arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn y dioddefwr.

### **Camdriniaeth Rywiol**

Mae'n cynnwys ond heb ei gyfyngu i: trais rhywiol ac ymosodiadau rhywiol neu weithredoedd rhywiol nad yw'r oedolyn mewn perygl wedi nac yn gallu rhoi cydsyniad iddynt a/neu y mae dan bwysau i roi cydsyniad iddynt.

### Proses Ymholiad Diogelu

Os yw'r pryder yn ymwneud â pherygl buan neu os ydych chi'n amau bod trosedd ddifrifol wedi digwydd, **galwch 999 ar unwaith**

#### BARN BROFFESIYNOL

Achos rhesymol i amau **BOD** yr Oedolyn mewn Perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod

Yr Oedolyn **DDIM** mewn Perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod, ond bod ganddo anghenion Gofal a Chymorth

#### ATGYFEIRIAD

Atgyfeirio gwrthrych y pryder at yr Awdurdod Lleol drwy gyfrwng MARF

#### ATGYFEIRIAD

Yn uniongyrchol at Gofal Cymdeithasol neu Gorff Arbenigol yn y Trydydd Sector i ddiwallu anghenion Gofal a Chymorth

#### SGRINIO

Sgrinio cychwynnol y pryder o fewn 1 diwrnod gwaith i edrych ar gywirdeb cyffredinol yr atgyfeiriad (a gweithredu os bydd angen)

#### GWERTHUSIAD CYCHWYNNOL

O fewn 7 diwrnod gwaith i'r atgyfeiriad, bydd yr Awdurdod Lleol yn casglu, coladu ac adolygu gwybodaeth ychwanegol

#### PENDERFYNIAD

Ar ddiwrnod 7, neu cyn hynny, gan ddefnyddio'r Offeryn Asesu Risg Rhanbarthol, bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud penderfyniad p'un a yw'r oedolyn:

- angen Gofal a Chymorth;
- mewn perygl o gamdriniaeth/esgeulustod; a
- pha gamau (os o gwbl) sydd angen eu cymryd a chan bwy.


Ystyried  
dymuniadau,  
teimladau,  
rhan y  
defnyddiwr  
gwasanaeth/  
eiriolwr drwy  
gydol y  
broses hon  
pryd bynnag  
y bo modd

## Penderfyniad

ATAL Drwy Gamau Gweithredu Amgen		AMDDIFFYN Drwy'r Broses Atgyfeirio Diogelu Ffurfiol	
Gwybodaeth Cyngor a Chymorth	Rheolaeth ar Lefel Asiantaeth / lefel Leol	Gweithdrefnau Diogelu Ffurfiol	Ymyriadau Critigol a Gweithredu ar Unwaith

Er ei bod yn debygol na fydd rhai pryderon yn mynd ymhellach na cham ymholiad cychwynnol y broses ddiogelu, caiff yr atgyfeiriad ei gofnodi er hynny, ei asesu a'i adolygu gan yr Awdurdod Lleol, fydd yn ystyried a oes camau priodol wedi/yn cael eu cymryd neu a fyddant yn cael eu cymryd i reoli'r risgiau a ganfuwyd. Gall hyn gynnwys gwirio a yw'r sawl oedd yn atgyfeirio wedi rhoi gwybodaeth neu gyngor, wedi cyfeirio at asiantaeth neu weithiwr proffesiynol arall; neu wedi trefnu ar gyfer asesiad o anghenion Gofal a Chymorth.

Gyda golwg ar llyn **AMDDIFFYN**, lle mae atgyfeiriad diogelu wedi ei wneud (MARF), mae [Working Together to Safeguard People: Volume 6 – Handling Individual Cases to Protect Adults at Risk](#) yn rhoi mwy o arweiniad ar y broses 'benderfynu' a gynhelir gan dimau diogelu yr Awdurdodau Lleol. Cymerwyd y tabl isod o Dudalen 33 yr arweiniad.



### **Pryderon ynghylch Ymarfer Gwael / Safonau Gwasanaeth**

Dylid cyfeirio'r pryderon sy'n ymwneud ag ymarfer gwael/safonau gwasanaeth at yr Awdurdod Lleol gan ddefnyddio'r **Ffurflen Atgyfeirio Ymarfer Gwael/Safonau Gwasanaeth (PPSSRF) – Atodiad 2** ranbarthol. Rhaid hefyd cyflwyno copïau o adroddiadau Rheoliad 26/38 i'r Comisiynwyr perthnasol. Caiff y wybodaeth hon ei dadansoddi'n rheolaidd er mwyn nodi patrymau a thueddiadau sy'n ailadrodd, a allai olygu bod angen cymryd camau gweithredu o dan bryderon ynghylch darparwyr neu weithdrefnau diogelu. Ymdrinnir â phryderon ynghylch ymarfer gwael, sy'n ymwneud â staff Bwrdd Iechyd, yn fewnol drwy gyfrwng y Bwrdd Iechyd.

### **Pryderon Proffesiynol**

Yng nghyd-destun y ddogfen hon, 'person proffesiynol' yw unrhyw berson sy'n cynorthwyo person agored i niwed naill ai am dâl neu fel gwirfoddolwr (naill ai'n swyddogol neu o dan drefniant achlysurol).

Disgwylir i bobl broffesiynol gynnal gwerthoedd eu proffesiwn a gweithredu'n unol â'u cod ymarfer proffesiynol. Gall methiant i weithredu yn unol â hynny y tu mewn neu y tu allan i'r gwaith, arwain at godi pryder proffesiynol gyda'r Awdurdod Lleol.

Mae'r Broses Pryder Proffesiynol ar gyfer rheoli achosion lle mae gwybodaeth yn dod i'r amlwg y gallai gweithiwr, Gofalwr neu wirfoddolwr fod wedi gweithredu mewn ffordd sy'n awgrymu risg bosibl o niwed i Oedolion Agored i Niwed. Mae'n darparu proses ar gyfer rhannu gwybodaeth, asesu a rheoli risg yn gyfreithlon a chymesur.

Gall unrhyw un gyfeirio pryder at y Gwasanaethau Cymdeithasol, lle y gwneir penderfyniad a ddylid edrych ar yr achos neu beidio o dan y Pryderon Proffesiynol.

Mae enghreifftiau o'r mathau o achosion y dylid eu rheoli o dan y protocol hwn yn cynnwys:

- Ymddygiad niweidiol sydd wedi digwydd ym mywyd preifat gwirfoddolwr neu gyflogai (er enghraifft, cyflawni camdriniaeth ddomestig),
- Mae'r unigolyn sy'n peri pryder yn destun ymchwiliad gan yr Heddlu ac mae'r ymchwiliad wedi nodi risg i oedolion, plant neu grwpiau sy'n agored i niwed,
- Nodwyd pryderon sy'n awgrymu efallai y bydd yr unigolyn yn anaddas i weithio gydag Oedolion mewn Perygl er nad oes unrhyw unigolyn wedi ei enwi yn y pryder cychwynnol,
- Pryderon wedi eu codi sy'n ymwneud â honiadau a/neu ymddygiad sy'n peri risg i bobl eraill.

Rheolir atgyfeiriadau pryder proffesiynol o dan weithdrefnau diogelu a dylid eu cyflwyno i'r Awdurdod Lleol fel atgyfeiriad diogelu. Os bydd y pryder yn ymwneud â gweithiwr mewn asiantaeth sy'n bartner (e.e. Staff Iechyd/yr Heddlu), gall y cyfarfod gael ei gynnull a'i gadeirio gan uwch aelod o staff yn yr asiantaeth bartner berthnasol.

### **Camdriniaeth Sefydliadol / Gyfundrefnol**

Camdriniaeth gyfundrefnol neu sefydliadol yw cam-drin pobl, sy'n digwydd o ganlyniad i ofal neu gefnogaeth wael neu annigonol, neu ymarfer gwael systematig sy'n effeithio ar y lleoliad gofal cyfan. Mae'n digwydd pan fydd anghenion a dymuniadau'r unigolyn yn cael eu haberthu er mwyn rhedeg grŵp, gwasanaeth neu sefydliad yn ddiraferth.

Mewn lleoliadau ffurfiol mae camdriniaeth gyfundrefnol neu sefydliadol yn fwy tebygol o ddigwydd pan fydd staff:

- heb eu hyfforddi'n ddigonol;
- yn cael eu goruchwyllo'n wael;
- ddim yn cael eu cefnogi gan eu rheolwyr;

- yn meddu ar sgiliau cyfathrebu gwael;
- yn rhan o ddiwylliant 'caeedig', er enghraifft, lleoliad gofal lle nad oes croeso i syniadau newydd, ymwelwyr, rheolwyr gofal na chysylltiad proffesiynol arall.

Gall camdriniaeth gyfundrefnol neu sefydliadol gynnwys mwy nag un camdriniwr, ac mae'n bosibl hefyd fod nifer o bobl yn dioddef yr un gamdriniaeth. Dylai fod gan bob sefydliad sy'n gweithio gydag oedolion weithdrefnau clir ar gyfer chwythu'r chwiban/codi pryderon a dylai'r holl staff ddeall y weithdrefn ar gyfer gwneud adroddiad am y sefydliad neu aelod arall o'r staff.

Mae dyletswydd ar yr holl staff/ymarferwyr i gael gwybod y gallant gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu, yn annibynnol, i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn â chamdriniaeth, esgeulustod neu niwed ac y dylent wneud hynny bob amser; os

- oes ganddynt bryderon ynghylch eu rheolwr, ymarferwyr dynodedig neu'r perchennog;
- oes ganddynt bryderon na fydd y rheolwr, yr ymarferwyr dynodedig na'r perchennog yn cymryd y mater o ddifrif a/neu'n gweithredu'n briodol i amddiffyn yr oedolyn; neu
- byddant yn ofni bygythiadau a/neu mae ganddynt bryderon ynghylch diogelwch defnyddwyr y gwasanaeth neu eu diogelwch eu hunain ar y pryd.

**Dylid trin pryderon ynghylch Camdriniaeth Sefydliadol / Gyfundrefnol sy'n sylweddol, yn gynyddol neu'n ailddiqwydd fel materion diogelu a dylent gael eu cyfeirio at yr Awdurdod Lleol gan ddefnyddio'r Ffurflen Atgyfeirio Diogelu Oedolion Ranbarthol (MARF).**

**Os bydd pryderon yn effeithio ar dri neu ragor o ddefnyddwyr gwasanaeth, dim ond un atgyfeiriad sy'n angenrheidiol.**

## **Trais yn erbyn Menywod, Trais ar Sail Anrhydedd, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)**

Mae trais a chamdriniaeth o unrhyw fath yn annerbyniol. Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn amlinellu fframwaith deddfwriaethol a strategaeth a gweledigaeth hirdymor yng Nghymru i fynd i'r afael â materion o'r fath. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod unrhyw un sy'n profi camdriniaeth fel yr amlinellir yn y ddeddfwriaeth yn cael ymateb amserol ac effeithiol gan yr awdurdodau perthnasol.

Elfen allweddol o ddeddfwriaeth a fframwaith VAWDASV yw 'Gofyn a Gweithredu'. Mae hon yn broses ymholi wedi'i thargedu, sydd i gael ei dilyn ar draws y Gwasanaeth Cyhoeddus, i ddarganfod trais yn erbyn menywod, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol. Mae'r term 'ymholiad wedi'i dargedu' yn disgrifio'r broses o adnabod dangosyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel sbardun i weithwr proffesiynol ofyn i'w gleient p'un a oes unrhyw un o'r materion hyn wedi effeithio arno ef/hi.

Deddf VAWDASV a'r fframwaith 'Gofyn a Gweithredu' cysylltiedig yw un o'r newidiadau mwyaf arwyddocaol mewn ymarfer yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf. Gyda'r ddeddfwriaeth daw y gofyniad i ddatblygu strategaeth ranbarthol a chynllun cyflawni 5 mlynedd, sydd ar hyn o bryd yn cael eu datblygu yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru ac fe'u cyhoeddir ym mis Gorffennaf 2018.

## **Camdriniaeth Ddomestig a Phroses Diogelu Oedolion**

Caiff trais a chamdriniaeth ddomestig eu dosbarthu yn swyddogol fel 'unrhyw ddigwyddiad o ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng oedolion sydd, neu sydd wedi bod, mewn perthynas â'i gilydd, neu rhwng aelodau o'r teulu, waeth beth fo'u rhyw neu rywioldeb'.

Wrth ystyried pa gymorth y dylid ei gynnig i'r rheiny a all fod yn dioddef camdriniaeth o'r fath, lle nad oes dim ond cam-drin domestig yn ffactor cyflwyno, a lle na nodwyd unrhyw wendidau ychwanegol eraill (er enghraifft materion iechyd meddwl neu anableddau corfforol), does dim angen gwneud atgyfeiriad diogelu at yr Awdurdod Lleol.

Os, fodd bynnag, y daw'n amlwg fod gan yr unigolyn, neu y gall fod ganddo, anghenion gofal a chymorth a'i fod yn dioddef camdriniaeth ddomestig, yna dylid gwneud atgyfeiriad diogelu.

Mae'n bwysig drwy gydol eich sgwrs gyda'r person, eich bod yn gweithio allan gydag ef/hi pa wasanaethau fyddai'r gorau i'w gynorthwyo gyda'r gamdriniaeth ddomestig, ei wendidau ychwanegol a beth yr hoffai ei wneud er mwyn dod o hyd i ateb neu ba help yr hoffai ei gael gyda'r penderfyniadau y bydd yn eu gwneud.

## **Am gyngor/cymorth arbenigol:**

**Llinell gymorth Byw heb Ofn:** 0808 8010 800  
**Gwasanaeth testun:** 078600 77333  
**E-bost:** [info@livefearfreehelpline.wales](mailto:info@livefearfreehelpline.wales)

## **Adolygiadau Ymarfer Oedolion** (APR)

Yn unol â [Rheoliadau Byrddau Diogelu \(Swyddogaethau a Gweithdrefnau\) \(Cymru\) 2015](#), mae cyfrifoldeb statudol ar Fyrddau Diogelu Rhanbarthol i gynnal adolygiadau ymarfer Oedolion amlasiantaethol yn amgylchiadau digwyddiad arwyddocaol lle y gwyddys neu yr amheuir bod oedolyn mewn perygl wedi cal ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Nid ymchwiliadau i'r ffordd y mae oedolyn wedi marw neu gael ei niweidio'n ddifrifol, nac i bwy sydd ar fai yw adolygiadau ymarfer. Materion i gael eu penderfynu gan Grwneriaid a'r llysoedd troseddol, yn y drefn honno, yw'r rhain, fel bo'n briodol.

Ffordd yw Adolygiadau Ymarfer Oedolion i'r holl asiantaethau sy'n bartneriaid nodi'r gwersi y gellir eu dysgu oddi wrth achosion Diogelu Oedolion arbennig o gymhleth neu anodd a gwneud newidiadau i wella gwasanaethau yng ngoleuni'r gwersi hyn. Mae'n ofynnol i'r holl asiantaethau, gan gynnwys darparwyr a gomisiynwyd, gydweithredu a chymryd rhan yn y broses APR.

Mae '[Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion](#)' yn datgan bod rhaid i Fwrdd gynnal Adolygiad Ymarfer Oedolion lle mae oedolyn mewn perygl:

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a allai fod yn fygythiad i fywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd; a
- lle gwyddys neu yr amheuir bod naill ai camdriniaeth neu esgeulustod yn ffactor a gyfrannodd at hynny

## **Ceisiadau am Adolygiad Ymarfer Oedolion**

Pan fydd oedolyn wedi marw neu wedi cael ei niweidio'n ddifrifol, a lle y gwyddys neu yr amheuir bod naill ai camdriniaeth neu esgeulustod yn ffactor, y flaenoriaeth gyntaf i sefydliadau lleol ddylai fod ystyried a oes oedolion eraill yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed (aelodau o'r teulu, neu oedolion eraill yn y lleoliad) ac felly angen eu diogelu. Lle bo pryderon o'r fath yn bodoli, dylid dilyn gweithdrefnau amddiffyn a diogelu oedolion lleol.

Gall unrhyw aelod o'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, unrhyw asiantaeth neu ymarferydd unigol gyda chefnogaeth ei reolwr llinell fynegi pryder ynghylch achos y credir ei fod yn bodloni'r meini prawf uchod. Ceir gofyn am gyngor (er nad yn hanfodol) gan aelod o Fwrdd yr Asiantaeth cyn atgyfeirio.

Bydd Rheolwr y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn gallu cynghori gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol ynghylch y broses APR, os bydd unrhyw amheuron nad yw achosion yn bodloni'r meini prawf.

Dylid gwneud pob atgyfeiriad yn ysgrifenedig gan ddefnyddio ffurflen atgyfeirio berthnasol y Bwrdd. Cyfrifoldeb yr atgyfeiriwr yw coladu'r holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen ar gyfer yr atgyfeiriad cychwynnol.

Gall Arweinydd Diogelu dynodedig yr Awdurdod Lleol ac Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ddarparu cyngor, arweiniad a chymorth i'r asiantaeth atgyfeirio (os nad yr Awdurdod Lleol ydyw).

Am fwy o fanylion ar y broses ranbarthol, gwelwch [Protocol Adolygiad Ymarfer Oedolion CWMPAS](#)

## **Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol**

Yn ogystal ag achosion sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion, mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn hyrwyddo ac yn hwyluso rhaglen reolaidd a pharhaus o Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol (MAPFs). Mae'r rhain yn ddigwyddiadau sy'n cael eu hwyluso er mwyn hyrwyddo dysgu adfyfyriol ac archwilio ymarfer mewn achosion. Gellir cynnal y rhain ar achosion sydd wedi'u cyfeirio am Adolygiad Ymarfer Oedolion, ond nad ydynt wedi bodloni'r meini

prawf, neu mewn sefyllfaoedd lle y nodwyd y potensial i ddysgu gwersi. Mae cysylltiad agos rhwng achosion o'r fath a chanlyniadau archwiliadau ac arolygiadau. Mae Grwpiau Gweithredu Lleol yn chwarae rôl bwysig yn nodi achosion sy'n addas ar gyfer MAPF. Mae Fforwm MAPF Rhanbarthol yn goruchwyllo ac yn ystyried achosion MAPF o fewn cyd-destun rhanbarthol. Caiff canlyniad y rhain yn ogystal â dysgu a ddsberthir, ei fonitro a'i oruchwyllo gan Fwrdd Gweithredol CWMPAS drwy'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd. Adroddir am ganlyniadau dysgu a nodir o MAPF lleol hefyd wrth yr Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol, fydd yn argymhell sut y dylid lledaenu'r canlyniadau dysgu yn rhanbarthol ar sail amlasiantaethol.

### **Y Rhyngwyneb â Diogelu Plant**

Os ydych yn gweithio gydag oedolyn ac mae gennych bryderon bod plentyn heb ei eni neu blant/pobl ifanc yn byw gyda'r oedolyn neu mewn cysylltiad ag ef/hi, rhaid ichi ystyried diogelwch a lles y plant hynny hefyd. Gweler '[Y Cymorth Iawn ar yr Adeg Iawn](#)' rhanbarthol, y Ddogfen Cymhwysra ar gyfer Cymorth a Throthwyau Rhanbarthol.

Yn sail i'r ddogfen hon mae nifer o bolisiau, gweithdrefnau a phrotocolau rhanbarthol; gellir gweld y rhain ar wefan y Bwrdd, ynghyd â dogfennau canllaw Cymru Gyfan.

Gweler y cysylltiadau isod:

- [Polisiau, Gweithdrefnau a Phrotocolau Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru](#)
- [Canllawiau Statudol, Polisiau, Gweithdrefnau a Phrotocolau Cenedlaethol Cymru Gyfan](#)

Sylwch, os gwelwch yn dda

Mae'r **Canllawiau Trothwy** canlynol yn cwmpasu sbectwm eang o bryderon a all ddigwydd yng nghyd-destun diogelu oedolion. Mae hyn yn amrywio o bryderon lefel isel sy'n gofyn am gamau ataliol hyd at sefyllfaoedd lle mae'r niwed yn sylweddol ac yn gofyn am ymchwiliad ffurfiol ar unwaith.

Nid yw'r enghreifftiau a nodir yn hollgynhwysfawr ac nid ydynt yn ymdrin â phob sefyllfa ddiogelu ac ni ddylent atal personau proffesiynol a gweithwyr eraill rhag arfer barn broffesiynol fesul achos. Lle bo modd, rhaid cymryd barn a dymuniadau'r unigolyn i ystyriaeth bob amser cyn cymryd unrhyw gamau. Os yw gweithiwr neu berson proffesiynol yn ansicr neu'n aneglur ynghylch pa lwybr yw'r mwyaf priodol, dylai ofyn am gyngor yn y lle cyntaf gan ei reolwr llinell neu gynghorwr diogelu dynodedig. Gellir gofyn am gyngor a chanllawiau ychwanegol wrth y ddesg ddyletswydd berthnasol ym mhob un o'r pedwar Awdurdod Lleol.



## CAMDRINIAETH GORFFOROL

ATAL drwy weithredu amgen		AMDDIFFYN drwy'r broses ddiogelu		
Mae angen rheolaeth briodol yn lleol neu ar lefel asiantaeth a chadw cofnod o'r camau a gymerwyd. e.e. Atgyfeiriad Ymarfer Gwael / Safon Gwasanaeth neu ddatrysiaid drwy Reoli Gofal / Cwynion / Disgyblu		Rhaid gwneud Atgyfeiriad Diogelu		
Dim niwed na risg o hynny Risg isel o niwed	Niwed posibl neu risg o hynny Risg canolig o niwed	Tebygolrwydd o Niwed Sylweddol neu risg o hynny Risg Sylweddol / Critigol o niwed		
Mae angen Atgyfeiriad Diogelu os bydd pryderon yn ailddigwydd neu yn cael eu huwchgyfeirio		Gellir ystyried Adolygiad Ymarfer Oedolion neu MAPF		
<p>Camgymeriad staff yn achosi ychydig neu ddim niwed, e.e. marc ffrithiant ar y croen o ganlyniad i sling teclyn codi yn ffitio'n wael</p> <p>Un digwyddiad / Anghydfod rhwng defnyddwyr gwasanaeth heb ddim niwed, wedi ei ddatrys yn gyflym ac mae asesiad risg yn ei le</p> <p>Nid yw'r oedolyn yn derbyn y feddyginiaeth ragnodedig, mae'n colli dos neu'n cael y ddos anghywir. Does dim niwed yn digwydd</p> <p>Gweithdrefnau symud a chario priodol heb eu dilyn ar un achlysur, ond heb achosi niwed.</p> <p>Nid yw'r oedolyn yn derbyn y cymorth symudedd a argymhellwyd ar un achlysur, ond heb achosi niwed</p> <p>Un digwyddiad pan syrthiodd y gofalwr i gysgu ar ddyletswydd. Nid achoswyd niwed – dal yn fater disgyblu neu reoli</p> <p>Cleisio a achoswyd gan ofalwr teuluol oherwydd techneg codi a gafael wael. Ni fwriadwyd niwed. Cafodd y mater ei ddatrys ar unwaith pan roddwyd y cyngor/offer cywir</p> <p>Mân ddigwyddiadau sy'n dal i fodloni'r meini prawf ar gyfer hysbysu am ddigwyddiad</p>	<p>Mân farciau ysgafn anesboniadwy wedi eu canfod heb esboniad clir sut y digwyddodd yr anaf</p> <p>Colli meddyginiaeth neu gamgymeriadau gweinyddol dro ar ôl tro mewn perthynas ag un defnyddiwr gwasanaeth ond heb achosi niwed.</p> <p>Un digwyddiad lle mae defnyddiwr gwasanaeth yn achosi niwed i un arall</p>	<p>Anafiadau anesboniadwy / marciau neu friwiau, toriadau neu olion gafael ar fwy nag un achlysur</p> <p>Colli meddyginiaeth neu gamgymeriadau gweinyddol dro ar ôl tro sy'n effeithio ar fwy nag un oedolyn a/neu'n arwain at niwed</p> <p>Digwyddiad y gellid ei ragweld a'i atal rhwng dau oedolyn agored i niwed lle cafwyd anafiadau neu lle yr achoswyd gofid emosiynol – mae'r staff yn methu ag atal</p> <p>Oedolyn yn cael anaf oherwydd anwybyddu gweithdrefnau cyffredin . Mae niwed yn digwydd</p> <p>Nifer o fân ddigwyddiadau neu gynnydd sy'n bodloni meini prawf ar gyfer adrodd Rheoliad 26/38</p>	<p>Dal bwyd, diodydd neu gymhorthion i annibyniaeth yn ôl</p> <p>Rhoi meddyginiaethau yn guddiedig heb awdurdodiad meddygol priodol neu y tu allan i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol</p> <p>Anafiadau anesboniadwy difrifol</p> <p>Camweinyddu meddyginiaethau yn fwriadol, e.e. llonyddu</p> <p>Defnyddio ataliad corfforol amhriodol / gormod o feddyginiaeth i reoli ymddygiad y tu allan i gynllun gofal penodol, neu'n anghymesur â'r risg</p>	<p>Patrwm o gamgymeriadau gweinyddol dro ar ôl tro neu gamweinyddu bwriadol sy'n arwain at afiechyd neu farwolaeth</p> <p>Niwed corfforol difrifol/ymsodiad ag arf neu heb un, yn arwain at niwed parhaol neu farwolaeth, gan gynnwys Anffurfio organau cenhedlu benywod</p> <p>Ymosodiadau corfforol – anaf/marwolaeth</p> <p>Unrhyw weithred droseddol gorfforol bosibl yn erbyn oedolyn mewn perygl</p>

**ESGEULUSTOD - DIM yn cynnwys hunan-esgeuluso**

ATAL drwy weithredu amgen		AMDDIFFYN drwy'r Broses Ddiogelu		
Mae angen rheolaeth briodol yn lleol neu ar lefel asiantaeth a chadw cofnod o'r camau a gymerwyd. e.e. Atgyfeiriad Ymarfer Gwael / Safon Gwasanaeth neu ddatrysiad drwy Reoli Gofal / Cwynion / Disgyblu		Rhaid gwneud Atgyfeiriad Diogelu		
Dim niwed na risg o hynny Risg isel o niwed	Niwed posibl neu risg o hynny Risg ganolig o niwed	Tebygolrwydd o Niwed Sylweddol neu risg o hynny Risg Sylweddol / Critigol o niwed		
Mae angen Atgyfeiriad Diogelu os bydd pryderon yn ailddigwydd neu yn cael eu huwchggyfeirio		Gellir ystyried Adolygiad Ymarfer Oedolion neu MAPF		
<p>Colli un ymweliad gofal cartref heb niwed yn digwydd</p> <p>Oedolyn ddim yn cael cymorth gyda phryd o fwyd/diod ar un achlysur a dim niwed yn digwydd</p> <p>Trosglwyddiadau gwael rhwng gwasanaethau a dim niwed yn digwydd, e.e. rhyddhau claf o'r ysbyty heb gynllunio digonol</p> <p>Nid yw oedolyn yn cael bath mor aml ag yr hoffai. Dim niwed wedi ei achosi</p> <p>Ffurflen DNACPR (Peidiwch â Cheisio Adfywio'r Galon a'r Ysgyfaint) ddim yn ddilys oherwydd camgymeriad / llofnodion ar goll a/neu rif y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), neu</p> <p>Penderfyniad DNACPR heb ei gyfleu'n effeithiol, neu</p> <p>Y ffurflen DNACPR a'r copïau carbon heb eu ffeilio a/neu eu dosbarthu'n gywir a DIM niwed wedi ei achosi.</p>	<p>Diffygion yn y gofal a ddarperir sy'n arwain at anesmwythdra neu anghyfleustra a dim niwed sylweddol yn digwydd, e.e. cael ei adael yn wlyb weithiau</p> <p>Ambell waith ddim yn cael mynediad at gymhorthion i fyw'n annibynnol. (Os yn rheolaidd, ystyried atal)</p> <p>Oedolyn mewn perygl yn byw gyda Gofalwr teuluol sy'n methu yn ei ddyletswyddau gofalu</p> <p>Cyfyngiadau amgylcheddol dros dro, ond camau i ddatrys hyn yn eu lle</p> <p>Diffygion achlysurol mewn gofal gan ofalwyr anffurfiol. Dim niwed</p> <p>Nid yw'r cynllun gofal yn mynd i'r afael â risg o niwed a dim niwed yn digwydd e.e. Rheoli ymddygiad i ddiogelu hunan neu eraill</p>	<p>Colli ymweliadau gofal cartref yn rheolaidd lle mae'r perygl o niwed yn cynyddu, neu colli un ymweliad lle mae niwed yn digwydd</p> <p>Trosglwyddiadau gwael rhwng gwasanaethau a niwed yn digwydd, e.e. rhyddhau claf o'r ysbyty heb gynllunio digonol</p> <p>Nid yw oedolyn agored i niwed sy'n dueddol i wiserau gwasgu yn cael ei asesu'n ffurfiol a niwed yn digwydd</p> <p>Nid yw'r cynllun gofal yn mynd i'r afael â'r risg o niwed ac mae niwed yn digwydd</p> <p>Rheoli ymddygiad i ddiogelu hunan neu eraill</p>	<p>Diffyg gofal parhaus i'r graddau bod iechyd a lles yn dirywio'n sylweddol e.e. briwiau gwasgu, diffyg hylif, diffyg maeth, colli annibyniaeth / hyder</p> <p>Gweithwyr proffesiynol neu ofalwyr cyflogedig yn camreoli briwiau neu niwed gwasgu</p> <p>Ffurflen DNACPR ddim yn ddilys oherwydd camgymeriad / llofnodion ar goll a/neu rif y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), neu</p> <p>Penderfyniad DNACPR heb ei gyfleu'n effeithiol, neu</p> <p>Y ffurflen DNACPR a'r copïau carbon heb eu ffeilio a/neu eu dosbarthu'n gywir a niwed wedi ei achosi.</p>	<p>Anaf difrifol neu farwolaeth am fod canlyniadau briw gwasgu, y gellid bod wedi eu hosgoi, wedi datblygu, e.e. septicemia</p> <p>Methiant i drefnu mynediad at wasanaethau achub bywyd neu ofal meddygol</p> <p>Methiant i ymyrryd mewn sefyllfaoedd peryglus lle nad oes gan yr oedolyn y galluedd i asesu risg</p> <p>Esgeulustod dybryd yn arwain at anaf difrifol neu farwolaeth</p>

**CAMDRINIAETH RYWIOL – yn cynnwys camfanteisio rhywiol**

ATAL drwy weithredu amgen		AMDDIFFYN drwy'r Broses Ddiogelu		
Mae angen rheolaeth briodol yn lleol neu ar lefel asiantaeth a chadw cofnod o'r camau a gymerwyd. e.e. Atgyfeiriad Ymarfer Gwael / Safon Gwasanaeth neu ddatrysiad drwy Reoli Gofal / Cwynion / Disgyblu		Rhaid gwneud Atgyfeiriad Diogelu		
Dim niwed na risg o hynny Risg isel o niwed	Niwed posibl neu risg o hynny Risg canolig o niwed	Tebygolrwydd o Niwed Sylweddol neu risg o hynny Risg Sylweddol / Critigol o niwed		
Mae angen Atgyfeiriad Diogelu os bydd pryderon yn aiddigwydd neu yn cael eu huwchgwyfeirio		Gellir ystyried Adolygiad Ymarfer Oedolion neu MAPF		
